Os hoffech gymryd rhan yn ein prosiect, cysylltwch â'n cydgysylltydd celf gymunedol drwy anfon e-bost at EMLaurens@sirgar.gov.uk

Sut i blannu mesen:

Casglwch fes yn yr hydref. Mae mes sydd wedi cwympo ar laswellt yn llai tebygol o fod wedi'u difrodi na'r rheiny sy'n cwympo ar arwynebau caled. Er mwyn sicrhau bod y mes yn iach, rhowch nhw mewn bwced o ddŵr. Os ydynt yn arnofio, ni fyddant yn tyfu, felly plannwch y rhai sy'n suddo yn unig.

Plannwch ddwy fesen ym mhob pot, sydd wedi'i lenwi bron i'r top â chompost di-fawn. Bydd unrhyw gynhwysydd yn gwneud y tro – ystyriwch ailddefnyddio pot iogwrt neu rywbeth tebyg. Gwnewch yn siŵr bod yna dyllau draenio yn y gwaelod, a gorchuddiwch y mes â chompost (tua 2cm o ddyfnder). Amddiffynnwch y mes rhag ysglyfaethwyr! Mae llygod a sgrech y coed yn hoff iawn ohonynt, felly gorchuddiwch nhw â rhwyll wifrog â thyllau mân i'w cadw allan.

Peidiwch byth â gadael i'ch potiau sychu. Rhowch nhw i sefyll mewn man yn yr awyr agored sy'n cael ei gysgodi rhag yr haul a'r gwynt a rhowch ddŵr iddynt, o'r top, nes bod yr eginblanhigion yn ymddangos. O hynny ymlaen, rhowch ddŵr iddynt o'r gwaelod drwy roi'r cynhwysydd mewn hambwrdd o ddŵr.

Yna arhoswch a byddwch yn amyneddgar. Gallai fod yn fis Mai cyn i'r eginblanhigion ymddangos. Byddwn yn cysylltu nôl â chi i weld faint o'ch coed derw sydd wedi egino. Bydd eich eginblanhigion derw yn tyfu'n eithaf hapus mewn pot am y tro. Rhowch wrtaith hylifol yn fwyd iddynt yn ystod yr haf i'w hannog i dyfu gymaint â phosibl, ond peidiwch â'u gorfwydo gan y gall hyn losgi'r gwreiddiau.

Pan fydd eich eginblanhigion derw o leiaf 200mm (8 modfedd) o uchder, maent yn barod i gael eu plannu yn eu cartref parhaol. Y gobaith yw y bydd hyn yn digwydd erbyn hydref 2021. Byddwn yn ôl mewn cysylltiad â chi bryd hynny i roi cyngor i chi ynglŷn â ble i blannu eich eginblanhigion derw.

Diolch yn fawr am fod yn rhan o'r prosiect cymunedol hwn i gofio am bobl Sir Gaerfyrddin a fu farw o Covid 19 yn 2020.

If you would like to take part in our project please contact our community art coordinator EMLaurens@carmarthenshire.gov.uk

How to plant an acorn:

Collect acorns in the autumn. Acorns that have fallen onto grass are less likely to have been damaged than those that fall onto hard surfaces. To check that the acorns are healthy put them into a bucket of water. If they float, they won't grow, so just plant the ones that sink.

Plant two acorns per pot filled almost to the top with peat-free compost. Any container will do – think about reusing a yoghurt pot or something similar. Make sure there are drainage holes in the bottom, and just cover the acorns with compost (about 2cm deep). Protect the acorns from predators! Mice and jays love them, so cover them with fine wire mesh to keep them out.

Never let your pots dry out. Stand them in a shady, sheltered spot, outdoors and water, from the top, until the seedlings emerge. From then on, water from below by placing the container in a tray of water.

Then wait and be patient. It could be May before the seedlings appear. We will get back in touch with you to see how many of your oak trees have sprouted. Your oak seedlings will grow quite happily in a pot for now. Feed with a liquid fertiliser during the summer to encourage maximum growth, but do not over feed as this can scorch the roots.

When your oak seedlings are at least 200mm (8 inches) tall, they are ready to be planted into their permanent home. Hopefully this will happen by autumn 2021. We will be back in touch then to advise you on where to plant your oak seedlings.

Many thanks for being part of this community project to remember the people of Carmarthenshire who died from Covid 19 in 2020.